

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 10fed Gorffennaf, 2017, yng Nghanolfan Bryncroes, o 7.30 p.m. hyd 8.35 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Carys E. Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Glyn Roberts, Harry Richards, Michael Strain, Glenys Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)
Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes

29. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Estynwyd cydymdeimad â'r Cynghorydd Elin Hughes ar golli ei thad yng nghyfraith yn ddisymwyth.

30. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ffurflen.

31. **CADARNHAU COFNODION**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion:

(a) y Cyngor a gynhaliwyd 12fed Mehefin, 2017.

(b) cyfarfod arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd 26ain Mehefin, 2017.

MATERION YN CODI

(a) Eitem 27(a) Gweithredoedd y Fynwent

Adroddodd y Clarc mai £20 y flwyddyn fyddai'r gost o gadw gweithredoedd y fynwent ym Manc yr HSBC ym Mhwillheli. I gofrestru gyda'r Gofrestra Tir adroddodd Y Cynghorydd Michael Strain mai'r gost fyddai £200.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Michael Strain gofrestru tir y Fynwent gyda'r Gofrestra Tir. Diolchwyd iddo am ei gymorth a'i barodrydd i ymgymryd a'r gwaith ar ran y Cyngor.

(b) Eitem 28(c) Gwefan

Adroddodd Y Cynghorydd Michael Strain y byddai'r person sydd wedi ei benodi ar gyfer gwefan Llanw Llyn yn dechrau ym mis Medi a'r bwriad oedd i gael tudalen ar y wefan ar gyfer Cyngorau Cymdeithas. Adroddir ymhellach.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

32. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Cyflwynwyd y cais a ganlyn C17/0618/32/LL – estyniad unllawr yn Neigwl Ganol, Botwnnog.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

33. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater i'w anfon ymlaen.

34. **MATERION FFYRDD**

Penderfynwyd

(a) Gofyn i Mr. J.A. Pozzi farbio Llwybr Pengopa; camfa yn ymyl Siop Rhos, Bryncroes, tu fewn i'r clawdd ger Tirionfa, Llangwnnadl a'r gamfa ochr bellaf i Llwyn Helyg, Llangwnnadl.

(b) Anfon at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i ail osod y drych ar groesfordd Pwllmaen, Penygroeslon.

(c) Adroddiad y Cynghorydd Gareth Williams ar faterion ddaeth i'w sylw yn ystod y mis:

(i) Cais i godi arwydd i ddynodi'r Eglwys ym Mhentref Bryncroes.

Penderfynwyd gwneud ymholiadau gyda Ardal Harddwch Naturiol neu

CADW er canfod a oes modd iddynt roi arwydd.

(ii) Cais am fin halen ar allt Coch Moel, Bryncroes. Amlinellwyd y cefndir i'r

aelodau lle mae penderfyniad eisoes wedi ei gymryd i beidio cymryd cyfrifoldeb am finiau halen. Dywedodd y Cynghorydd Williams y byddai'n cael

gair a'r trigolion sydd yn defnyddio'r ffordd yma er ceisio gweld a fyddai modd

iddynt gyd-weithio i gael bin.

Penderfynwyd derbyn yr awgrymiad.

(iii) Cais am gael lloches bws ger y Feddygfa ym Motwnnog.

Penderfynwyd gwneud ymholiadau gyda'r awdurdod perthnasol er canfod a

fyddant yn barod i ystyried cais o'r fath.

35. **AWDURDOD I DALU**

Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus.

36. **CYNLLUN CYFIEITHU CYMUNEDOL**

Nodwyd gwybodaeth dderbyniwyd gan Hunaniaith, Menter Iaith Gwynedd, ynglyn a'r gost o gael cyfieithydd ar y pryd.

37. **HAWLIAU MIS AWST**

Penderfynwyd fod yr hawliau arferol o berthynas i geisiadau cynllunio ag awdurdod i dalu yn weithredol ar gyfer mis Awst.